Y CRIW Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

YSGOL
GYNRADD RHAGLAN

Raglan School 1891

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ‘Ymgorffori Menter’ Y Syniad Mawr – Gam wrth Gam



Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

Busnes Cymru | Business Wales

Noddwr Cyswllt
Associate Sponsor
NatWest Cymru

# Cam 1

# Lansio Cyfarfod Staff

## EDRYCH YN ÔL

Dechreuwch gyda  ‘galwad i weithredu’ ar gyfer y staff cyfan trwy ailymweld â phrosiect menter y llynedd gan adolygu’r hyn oedd yn dda, a beth allai fod hyd yn oed yn well os…

## SYMUD YMLAEN

Dechreuwch drwy roi meddyliau ar waith ynglŷn â menter ‘Syniad Mawr’. Sicrhewch fod gennych gefnogaeth staff i ddatblygu’r syniad. Penderfynwch ar y dyddiad(au) ar gyfer y digwyddiad(au) a sicrhewch fod pawb yn gwybod y dyddiad ac yn ei gadw’n rhydd. Cytunwch hefyd ar pryd y:

- bydd marchnata a hyrwyddo yn dechrau..
- bydd angen cwblhau prototeipiau.
- bydd angen cynhyrchu, pecynnu a phrisio cynnyrch.



# Cam 2

# CYNLLUNIO, CYNLLUNIO A CHYNLLUNIO

## Dechreuwch gyda'r Staff

- Trafodwch y ‘Syniad Mawr’ a symudwch ymlaen at syniadau codi arian posibl, sicrhewch eich bod yn cofnodi’r rhain
- Dyrannwch amrywiaeth o weithgareddau menter codi arian ar draws y grwpiau blwyddyn.
- Mae staff bob amser yn adnabod rhieni a phobl yng nghymuned ehangach yr ysgol a all helpu i ddarparu adnoddau neu gyngor.

## Rheoli'r Arian

- Pennwch gyllideb prosiect cyfan ‘Syniad Mawr’ a chytuno ar y buddsoddiad cychwynnol ar gyfer pob un o’r gweithgareddau menter
- Cynlluniwch sut bydd y plant yn cael mynediad i'w harian/ benthyciad ac yn cadw ato.





## Adolygu a Mireinio

- Byddwch yn barod i addasu’r ‘Syniad Mawr’ ar sail cyfyngiadau adnoddau ac amser.




## Rhannwch y ‘Syniad Mawr’ gyda’r Plant

- Rhannwch y ‘Syniad Mawr’ a gofynnwch am eu syniadau am gynnyrch
- Adolygwch a myfyriwch ar lwyddiant prosiectau blaenorol fel sbardun ar gyfer cynllunio'r digwyddiad hwn.
- Rhowch wybod iddynt sut benthycir yr arian ar gyfer eu prosiect a sut y gellir ei wario. Bydd hyn yn creu perchnogaeth, cyffro a phwrpas.
- Os oes mwy nag un garfan yn cymryd rhan yn y fenter, sicrhewch eu bod i gyd yn gwneud cynnyrch gwahanol.



# Cam 3

# DECHRAU CYNHYRCHU

## Rhai awgrymiadau…

1. Dewiswch gynnyrch y gellir eu cynhyrchu ar linell gynhyrchu, gan mai dim ond yr eitem benodol a wneir gan eu plentyn eu hunain y bydd rhai rhieni eisiau ei brynu.
2. Er mwyn eu cynorthwyo i ddeall cyllidebau, gofynnwch i'r disgyblion brisio'r deunyddiau crai ac ymchwilio sut i wneud y cynnyrch.
3. Trafodwch elw posibl a rheoli ansawdd. Rydych eisiau i gwsmeriaid fod yn hapus gyda'r cynnyrch, ond hefyd eisiau cynhyrchu elw.
4. Awgrymwch fod y plant yn creu holiadur ar gyfer ymchwil marchnata. Defnyddiwch hwn i ddarganfod pa gynnyrch sydd fwyaf poblogaidd a faint fyddai cwsmeriaid yn barod i'w dalu.
5. Dadansoddwch y data hwn ac yna ei ddefnyddio i benderfynu ar gost derfynol ar gyfer eich cynnyrch.








6. Anogwch y disgyblion i gydweithio mewn grwpiau i greu cyflwyniad ar gyfer y buddsoddiad cychwynnol. Mae angen i'r cyflwyniad gysylltu â'u hymchwil marchnad a rhagweld elw terfynol. Cyflwynwch y cyflwyniad  i'r pennaeth, neu i bwy bynnag sy'n mynd i roi'r buddsoddiad cychwynnol.

7. Unwaith y bydd y buddsoddiad wedi'i sicrhau, prynwch yr adnoddau sydd eu hangen a mynd i’r afael â’r canlynol:
    - Cynhyrchu’r cynnyrch
    - Hysbysebu'r cynnyrch, gwneud fideos, postiadau cyfryngau cymdeithasol a phosteri
    - Dylunio'r arwyddion, labeli, tagiau pris a'r stondin ble gwerthir y nwyddau
    - Creu catalog ar-lein.

    Cylchdroi tasgau’r plant i roi profiad iddynt o'r gwahanol rolau neu ofyn iddynt ddewis un a gwneud cais am y rôl honno.

8. Mae rheoli ansawdd yn allweddol gyda'r cynnyrch a wneir gan y plant oherwydd efallai bydd angen rhywfaint o waith atgyweirio.

9. Ar ddiwrnod y digwyddiad rhowch wahanol rolau i’r plant, efallai mewn grwpiau, gan sicrhau bod pawb yn cael tro i
    - werthu'r cynnyrch
    - cyfrifo a rhoi newid
    - adio cyfanswm y costau

10. Tua diwedd y gwerthiant, gall y plant benderfynu ar gynigion arbennig fel aml-bryniant neu brisiau gostyngol, er mwyn clirio stoc a chael y swm mwyaf posib o arian.



# Cam 4

# ANNOG GWERTHUSO a RHANNU LLWYDDIANT

Cefnogwch y plant i werthuso’r holl ddigwyddiad a myfyrio ar eu rhan yn y cyfan trwy ddefnyddio;

- 2 seren a dymuniad
- Neu a oedd rhywbeth fuasent wedi ei wneud yn wahanol wrth ei wneud eto?

Rhannwch y llwyddiannau gyda’r ysgol a’r gymuned ehangach.



## Traws-gyfateb i’r Cwricwlwm

**Gall Ymgorfforyi Menter  gefnogi datblygiad y sgiliau canlynol...**

### Llythrennedd Iaith a Chyfathrebu

- Cydweithio fel tîm i greu a chyflwyno cyflwyniad i sicrhau buddsoddiad cychwynnol.
- Gweithio fel dosbarth ac o fewn timau llai i greu'r cynnyrch a gwneud penderfyniadau.
- Trawsieithu drwy ddefnyddio geirfa o ieithoedd eraill drwy gydol y broses.
- Ysgrifennu, datblygu sgiliau perswâd, creu tagiau pris, labeli ayb.

### Rhifedd

Addysg ariannol trwy ymchwilio costau, cyfrifo elw posibl, casglu a dadansoddi data, adnabod a defnyddio symiau gwahanol o arian, ychwanegu prisiau, cyfrifo newid.



## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Trwy ddefnyddio:

- y rhyngrwyd yn ddiogel i ymchwilio prisiau a chostau.
- Ffurflenni Google i greu arolygon ymchwil marchnad.
- Postiadau cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau codi arian.
- Adobe Spark i greu posteri a chatalogau.
- iMovie ar iPads i greu fideos hysbysebu.



## Iechyd a Lles

Trwy adeiladu

- gwytnwch pan fydd anghytundeb â phenderfyniadau, pan nad yw pethau'n mynd fel y'u cynlluniwyd a bod angen addasu'r syniad, y teimlad o gyflawniad pan fyddwn yn cyrraedd diwedd y prosiect; a
- chynnal perthnasoedd iach drwy'r broses.






## Celfyddydau Mynegiannol

Trwy ddefnyddio sgiliau creadigol i

- ddatblygu'r defnydd o wahanol gyfryngau, i wneud cynhyrchion sy'n ddymunol yn esthetig.
- dylunio’r man gwerthu e.e., y stondin a’i chefndir a phecynnu’r cynnyrch.



## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Penderfynu ar

- y defnyddiau esthetig dymunol a'r deunyddiau gorau ar gyfer y dasg.
- cynaliadwyedd ac adnoddau ecogyfeillgar.





## Y Dyniaethau

Trwy ymchwilio

- o ble y daw'r deunyddiau crai.
- cynaliadwyedd deunyddiau a chynhyrchion.
- pa adnoddau o’r ardal leol y gellir eu defnyddio.

